# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Ynysawdre**

**Tŷ Ynysawdre**
**Heol-yr-ysgol**
**Tondu**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF32 9FE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Tŷ Ynysawdre

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Ionawr 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae cartref Tŷ Ynysawdre yn darparu gofal a chymorth i'r bobl mewn amgylchedd cynnes a chyfeillgar. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn blaenoriaethu treulio amser yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio â nhw drwy gydol y dydd. Mae'r cynlluniau personol ac asesiadau risg yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn i'r gweithwyr gofal allu darparu'r gofal cywir i'r bobl ar yr amser cywir. Mae amgylchedd y cartref yn lân ac mewn cyflwr da. Mae gofod unigol y bobl wedi'i bersonoli. Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio a'u fetio i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer eu rolau. Mae hyfforddiant a goruchwyliaeth yn barhaus, gan gefnogi'r gweithwyr gofal i gynnal a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn absennol o'u swyddi ar hyn o bryd, ond mae staff cyflenwi dros dro ar gyfer y ddwy rôl ac ni fu unrhyw effaith amlwg ar ddarparu gwasanaeth. Mae'r dirprwy reolwr yn dweud ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi gan ei reolwr llinell a'r unigolyn cyfrifol interim.

## Llesiant

Caiff y bobl eu cefnogi a'u hannog i wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal a'u harferion dyddiol. Gall y bobl symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd cymunedol a'u hystafelloedd gwely, cymryd rhan mewn sgyrsiau a rhyngweithio â'r gweithwyr gofal a'i gilydd. Mae'r gweithwyr gofal yn meddwl am amrywiaeth o weithgareddau y mae'r bobl yn mwynhau, gan gynnwys hel atgofion amser a thasgau synhwyraidd. Gwelsom eu bod yn rhoi blaenoriaeth i eistedd gyda'r bobl, siarad â nhw, a meithrin awyrgylch gymunedol yn y gwasanaeth. Yn ystod amser cinio, gwelsom y gweithiwr gofal yn dangos eu hopsiynau bwyd ar blatiau i'r bobl fel y gallent wneud y dewis rhyngddynt a dweud faint yr hoffent ei gael o'i gymharu â'r pryd ar blatiau. Cynigiwyd diodydd i'r bobl drwy'r dydd.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth i'r bobl ar y cyd â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol allanol. Gwelsom dystiolaeth o fewnbwn rheolaidd gan y meddygon teulu, y nyrsys cymunedol a'r gweithwyr proffesiynol arbenigol fel tîm iechyd meddwl a thîm dementia. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel a'i gwaredu'n briodol. Caiff meddyginiaeth PRN (fel y bo angen) ei chofnodi, ac mae'r staff gofal yn monitro'r effeithiau pan gaiff ei rhoi. Gwelsom ran o rownd feddyginiaeth a oedd yn dangos fod y staff gofal yn gymwys wrth rhoi meddyginiaeth.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed neu gamdriniaeth. Caiff risgiau penodol i iechyd a diogelwch eu cynnwys mewn cynlluniau gofal ac asesiadau risg. Caiff y rhain eu hadolygu a chaiff nodiadau eu gwneud fel rhan o adolygiadau arweinwyr tîm. Mae polisïau priodol ar waith gan gynnwys polisïau diogelu a chwythu'r chwiban, a chafodd y polisïau hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n ddiweddar. Mae hyfforddiant diogelu wedi'i gwblhau.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw un yn byw yn y gwasanaeth sydd angen ei wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae dogfennau dwyieithog ar gael ar gais.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn annog y bobl i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn hybu awyrgylch cynnes a chyfeillgar. Yn ystod yr ymweliad, gwelsom ryngweithio cynnes parhaus rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Roedd y bobl yn cerdded allan yn yr ardd os oeddent yn teimlo ei bod yn rhy swnllyd neu'n rhy brysur yn yr ardal gymunedol. Dywedodd y bobl wrthym: *“this is a nice place”*, *“the staff are very friendly”* a *“there’s nothing I don’t like here”*.

Mae gan y staff gofal y wybodaeth sydd ei hangen i allu darparu'r gofal sydd ei angen ar y bobl ar yr adeg y mae ei angen arnynt. Mae hoffterau'r bobl o ran eu gofal a'u trefn arferol yn cael eu cofnodi yn eu ffeiliau. Cedwir ceisiadau ac awdurdodiadau ar gyfer trefniadau diogelu rhag colli rhyddid mewn ffeiliau er gwybodaeth. Mae cynlluniau personol yn cynnwys anghenion y bobl a’r cymorth sydd ei angen arnynt i gadw’n iach. Mae'r asesiadau risg yn nodi’r risg i ddiogelwch unigol y bobl a’r trothwy pan fyddai angen i'r gweithwyr gofal ymyrryd. Caiff y rhain eu hadolygu a chaiff y rhan fwyaf o'r gwaith papur ei ddiweddaru yn dilyn unrhyw newid mewn anghenion. Mae nodiadau dyddiol yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau a hwyliau cyffredinol yn ystod y dydd a'r nos. Caiff proses drosglwyddo drylwyr ei chwblhau rhwng shifftiau a chedwir dyddiadur staff sy'n cofnodi newidiadau sylweddol neu apwyntiadau arfaethedig i'r staff gofal gyfeirio ato.

Mae systemau ar waith i hyrwyddo prosesau rheoli heintiau a hylendid da. Gwelsom gyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio'n briodol gan y staff ar gyfer gofal cyswllt agos. Mae ymwelwyr bellach yn gallu ymweld ar unrhyw adeg, am unrhyw gyfnod o amser, ac yn gallu mynd i ystafelloedd gwely'r unigolyn a'r ardaloedd cymunedol.

## Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n gwella llesiant y bobl. Mae Tŷ Ynysawdre yn rhan o safle ehangach sy'n eiddo i Linc Cymru ac yn cael ei gynnal ganddo. Mae amrywiaeth o gyfleusterau fel ystafell sba, salon, a bwyty yn rhan o'r safle, a gall y bobl sy'n byw yng nghartref Tŷ Ynysawdre, a'u ymwelwyr eu defnyddio os byddant am wneud hynny. Caiff ardaloedd fel yr ystafell golchi dillad a'r ystafelloedd meddyginiaeth eu cadw dan glo, er mwyn diogelu'r bobl rhag peryglon posibl y tu fewn. Ni all unigolion heb awdurdod gael mynediad i'r cartref, ac mae'r tîm rheoli yn cadw cofnodlyfr electronig o ymwelwyr.

Mae ardaloedd cymunedol mawr, ac mae gan bob ystafell wely ystafell ymolchi en suite. Caiff yr ystafelloedd gwely eu personoli o ran décor ac maent yn cynnwys eitemau personol y bobl. Gwelsom fod y cyfleustodau a'r cyfleusterau yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio. Caiff ceisiadau am waith cynnal a chadw eu cyflwyno i Linc Cymru, sy'n ymateb yn brydlon i ddatrys y mater. Mae Linc Cymru yn cynnig gwasanaethau domestig a gwasanaethau golchi dillad, ac ar ddiwrnod ein hymweliad; gwelsom fod y cartref yn lân ac yn daclus a bod dillad y bobl a'u dillad gwely yn edrych yn lân. Caiff gwiriadau rheolaidd eu cynnal o'r cyfarpar a'r larymau tân, ac mae cynlluniau ar gyfer gwagio'r adeilad ar gyfer y bobl wedi'u storio yn y bocs tân os bydd argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm cyson o staff sy'n gyfarwydd â'u hanghenion. Defnyddir staff asiantaeth i ategu absenoldeb salwch. Mae'r staff hyn wedi'u trefnu mewn bloc ac felly'n gyfarwydd i'r bobl sy'n byw yng nghartref gofal Tŷ Ynysawdre ond hefyd yn gyfarwydd â'r rôl a'r hyn sy'n ofynnol ganddynt. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom lefelau staffio a oedd yn golygu, ar y cyfan, y gallai'r staff gofal roi cymorth i'r bobl heb ruthro, a bod digon o amser ganddynt i eistedd ac ymgysylltu â nhw rhwng tasgau.

Ar hyn o bryd, mae'r rheolwr yn absennol, ac mae'r dirprwy reolwr a'r arweinydd tîm yn cyflawni'r rôl yng nghartref gofal Tŷ Ynysawdre a'i chwaer wasanaeth. Ni welsom unrhyw effaith negyddol ar ofal y bobl o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r rheolwr yn ei rôl ar hyn o bryd. Mae'r staff yn rhoi adborth cadarnhaol ar eu profiad o weithio yng nghartref gofal Tŷ Ynysawdre. Gwnaethant ddweud wrthym: *"I've had all my supervisions and can talk to [deputy manager] about anything"*, *"if I was worried about anyone, I would definitely speak to [deputy manager] or [team leader]"*, *"agency staff don't make any extra work for us, they are helpful and they know what they're doing"*.

Caiff y staff gofal eu recriwtio a'u fetio'n briodol cyn iddynt ddechrau yn eu swydd. Caiff gwiriadau recriwtio eu cynnal gan adran Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol, a fydd wedyn yn cyflwyno geirdaon i'r rheolwr ac yn rhoi gwybod am unrhyw faterion er mwyn gallu awdurdodi dyddiad dechrau. Caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd (DBS) eu cynnal fel rhan o'r broses recriwtio, ac yna caiff y staff eu hysbysu pan fydd angen iddynt adnewyddu eu tystysgrifau. Mae'r staff gofal yn dilyn hyfforddiant gorfodol ac atodol. Darperir hyfforddiant gan yr Awdurdod Lleol, ac felly mae argaeledd hyfforddiant allan o reolaeth y rheolwr. Gwelsom fod y dirprwy reolwr wedi bwcio gweithwyr gofal ar y cyrsiau oedd ar gael ar gyfer y misoedd nesaf. Mae goruchwyliaeth, arsylwadau ymarfer a chymwyseddau meddygol yn cael eu cwblhau'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Mae prosesau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yng nghartref gofal Tŷ Ynysawdre. Mae'r unigolyn cyfrifol yn absennol o'i swydd ar hyn o bryd, felly mae'r unigolyn cyfrifol blaenorol yn cyflawni'r rôl dros dro gan ei bod yn gyfarwydd â'r gwasanaeth, y tîm staff a'r bobl sy'n byw yno. Mae gwiriadau sicrhau ansawdd chwarterol yn cael eu cwblhau yn ôl yr angen, ac yn cynnwys adborth a gasglwyd gan bawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cyfrannu at adroddiadau ansawdd gofal chwemisol, sy'n nodi cryfderau'r gwasanaeth a'r meysydd parhaus i'w datblygu. Mae gwybodaeth am y gwasanaeth, megis datganiad o ddiben, a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol, yn gyflawn ac yn gyfredol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/08/2023